

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Crynodeb o Fil

# Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Mawrth 2015

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Ymchwil@Cynulliad.Cymru](mailto:Ymchwil@Cynulliad.Cymru)  
Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 15/0115  
Rhif dogfen:15/014

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Crynodeb o Fil

## **Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

Mawrth 2015

Amy Clifton, Helen Jones, Stephen Boyce

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



**Y Gwasanaeth  
Ymchwil**



# Cynnwys

<b>Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)</b> .....	<b>1</b>
<b>1. Cefndir</b> .....	<b>2</b>
1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol.....	2
1.2. Datblygu'r Bil .....	2
1.3. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael .....	3
<b>2. Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Crynodeb o'r darpariaethau</b> .....	<b>5</b>
2.1. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth .....	5
2.2. Rhannau'r Bil.....	5
2.2.1. Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol.....	5
2.2.2. Trosolwg o rannau 3 i 8 a'u dehongli.....	9
2.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru .....	9
2.2.4. Gweithwyr gofal cymdeithasol .....	10
2.2.5. Safonau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.....	11
2.2.6. Gweithwyr gofal cymdeithasol - addasrwydd i ymarfer.....	12
<b>3. Aseiad Effaith Rheoleiddiol</b> .....	<b>16</b>
3.1. Goblygiadau ariannol y Bil .....	16
3.1.1. Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir .....	16
3.1.2. Manteision .....	18
3.1.3. Costau ychwanegol ar y rheoleiddiwr gwasanaethau (AGGCC) .....	18
3.1.4. Costau ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau.....	18
3.1.5. Costau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru .....	19
3.1.6. Manteision i weithwyr gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a Chyngor Gofal Cymru (i newid yn Gofal Cymdeithasol Cymru). ....	19
3.2. Aseuadau effaith .....	20
<b>4. Ymateb i'r Bil</b> .....	<b>21</b>
4.1. Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 24 Chwefror 2015.....	21



# Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Cyflwyniad

Bil Llywodraeth Cymru yw'r [Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#) Cafodd ei gyflwyno ar 23 Chwefror 2015 gan Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwnaeth Mark Drakeford AC [ddatganiad llafar](#) yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2015 (mae rhagor o fanylion isod).

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Ar 3 Chwefror 2015, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y dyddiad cau ar gyfer adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, sef 3 Gorffennaf 2015, a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor, sef 16 Hydref 2015.

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnal [ymgyngoriad](#) ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a ddaw i ben ar 24 Ebrill 2015. Mae'r Pwyllgor yn trafod y Bil yng Nghyfnod 1 a bydd yn dechrau cymryd tystiolaeth ar 25 Mawrth 2015.

Ceisio'r Bil ddarparu fframwaith deddfwriaethol diwygiedig a syml ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru. Noda'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil y bydd hyn yn cefnogi trawsnewid y sector gofal cymdeithasol ac yn adeiladu ar ddarpariaethau *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

## 1. Cefndir

### 1.1. Cymhwysedd deddfwriaethol

Dywed y Memorandwm Esboniadol (yn adran 2) bod testun y Bil yn dod o fewn y rhestr o bynciau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, a'i fod felly o fewn cymhwysedd y Cynulliad.

Mae paragraff 15 o Atodlen 7, Rhan 1 yn cynnwys:

#### **15. Lles Cymdeithasol**

"Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) [and of young adults]. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi meysydd perthnasol eraill o gymhwysedd yn Rhan 1, Atodlen 7, gan gynnwys:

#### **12. Local Government**

Powers and duties of local authorities and their members and officers.

#### **14. Public Administration**

Audit, examination, regulation and inspection of auditable public authorities. Inquiries in respect of matters in relation to which the Welsh Ministers, the First Ministers or the Counsel General exercise functions.

#### **5. Education and Training**

Education, vocational, social and physical training and the career service. Promotion of advancement and application of knowledge.

### 1.2. Datblygu'r Bil

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [\*Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu\*](#) yn 2011, yn amlinellu ei rhaglen i ddiwygio'r ffordd y caiff gofal a chymorth eu darparu yng Nghymru.

Cafodd hyn ei lywio gan y strategaeth gwasanaethau cymdeithasol [\*Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol\*](#) (2007) a gwaith y [\*Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru\*](#) (2010). Bu'r rhain o gymorth i egluro blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol mewn hinsawdd gymdeithasol a gwleidyddol sy'n newid o hyd.

Roedd angen newid deddfwriaethol i gyflawni rhai o'r cynigion yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy*, a chyflwynwyd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn y Cynulliad ym mis Ionawr 2013. Mae [\*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014\*](#) yn gosod fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd cynnwys diwygiadau i'r ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei archwilio a'i arolygu yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, ond [\*penderfynodd, ym mis Mehefin 2012\*](#), i wneud y pethau hyn yn destun Bil ar wahân.



Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn, [Dyfodol rheoleiddio ac arolygu gofal a chymorth yng Nghymru](#) i ymgynghori yn ei gylch. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ebrill 2014, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad](#).

Wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd i ystyriaeth argymhellion gwaith Comisiwn y Gyfraith (2014) ar reoleiddio gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn ei ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2015, dywedodd y Gweinidog:

Nid oes sylfaen deddfwriaethol gyson ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol. Mae angen ei diwygio a'i diweddarau. Mae'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu wedi newid yn sylweddol dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae llawer mwy o bobl yn cael gofal yn y gymuned, ac mae cynnydd mewn pobl mewn gofal preswyl sydd â chyflyrau mwy aciwt. Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dan arweiniad Mrs Gwenda Thomas, wrth gwrs, yn torri tir newydd o ran cyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i ymateb i'r newidiadau hyn. Mae'r Bil cysylltiedig hwn yn cynnig fframwaith cyfreithiol effeithiol ar gyfer rheoleiddio'r dulliau newydd a osodwyd gan Ddeddf 2014.

### *1.3. Diben y Bil a'r effaith y bwriadwyd iddo'i chael*

Nodau allweddol y Bil yw sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen dysgu o ddigwyddiadau difrifol fel Southern Cross, Canol Swydd Stafford a Winterbourne, a oedd yn cynnwys cam-drin ac esgeuluso oedolion agored i niwed yn Lloegr, ac Ymgyrch Jasmine, sydd, ar hyn o bryd, yn destun adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o gam-drin ac esgeulustod mewn cartrefi gofal yn ne Cymru. Mae gwersi o'r fath yn cynnwys y pwysigrwydd bod sefydlogrwydd yn y farchnad, a lliniaru'r risgiau pan fydd darparwr yn methu. Mae hefyd yn cynnwys y gydnabyddiaeth na ddylai'r bobl ar y rheng flaen gael y bai i gyd am achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan bod safonau gofynnol, rheoliadau a rheolau dyblygol a diangen wedi eu creu sydd angen eu hadolygu a'u symleiddio.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cofrestru a rheoleiddio personau sy'n darparu gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau cymorth cartref. Y mae hefyd yn darparu ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn ailffurfio Cyngor Gofal Cymru fel Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn darparu ar gyfer cofrestru, rheoleiddio a hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae'r Bil yn cynnig newidiadau er mwyn:

- **Diwygio'r drefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth** – sy'n cynnwys model newydd o reoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaeth, darpariaethau i fonitro gweithrediad y farchnad ofal, darpariaethau i ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a phwerau i gyflwyno graddau ansawdd arolygu a chodi ffioedd.
- **diwygio'r drefn arolygu a rheoleiddio swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol** drwy ddiwygio *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* – sy'n cynnwys ystyried canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau mewn adolygiadau o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynnwys y cyhoedd yn fwy a dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i adrodd ar farchnadoedd lleol am wasanaethau gofal cymdeithasol.
- **ailgyfansoddi ac ailenwi Cyngor Gofal Cymru yn 'Gofal Cymdeithasol Cymru'** ac ehangu ei gylch gwaith mewn perthynas â gwella gwasanaethau; i gynnwys rhoi cyngor a chymorth (gan gynnwys grantiau) i ddarparwyr gwasanaethau gofal a chymorth, ac ymgymryd ag astudiaethau ymchwil.
- **diwygio'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol** – sy'n cynnwys cael gwared ar gofrestru gwirfoddol a chyflwyno gorchmynion gwahardd. Nid yw'n ymestyn cofrestru i gategoriâu newydd o staff, ond mae'n darparu pwerau i wneud hynny.

## 2. Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): Crynodeb o'r darpariaethau

Mae'r Nodiadau Esboniadol ar dudalennau 324 -372 o'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi eglurhad o ddarpariaethau'r Bil.

### 2.1. *Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth*

Cynhwyswyd nifer sylweddol o ddarpariaethau yn y Bil ar gyfer is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau, canllawiau a chod ymarfer ar bwerau i Weinidogion Cymru. Mae hefyd bwerau i wneud rheolau, canllawiau a chod ymarfer ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r rhain wedi'u nodi yn adran 5 (tt 91-130) o'r Memorandwm Esboniadol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi dogfen sy'n nodi'r bwriad polisi ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Bil.

### 2.2. *Rhannau'r Bil*

Mae un rhan ar ddeg i'r Bil.

#### 2.2.1. *Rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol*

##### ***Pennod 1 - Cyflwyniad***

Mae pennod 1 (adrannau 1–4) **yn diffinio rhai termau allweddol** gan gynnwys ystyr "gwasanaeth rheoleiddiedig" (adran 2), ac **yn nodi amcanion cyffredinol Gweinidogion Cymru** mewn perthynas â rheoleiddio gwasanaethau (adran 4). Y rheini yw:

- Diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig, a
- Hybu a chynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig.

##### ***Pennod 2 - Cofrestru darparwyr gwasanaethau***

Mae Pennod 2 (adrannau 5 – 30) yn canolbwyntio ar **gofrestru** darparwyr gwasanaeth rheoleiddiedig, gan gynnwys **y gofyniad i gofrestru a phrosesau sy'n gysylltiedig ag ymgeisio, amrywio a chanslo cofrestriad, ac apelau.**

Bellach, ni fydd rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gofrestru ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth ac ym mhob lleoliad lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Yn hytrach, bydd darparwr yn gwneud un cais i gofrestru y gellir ei amrywio i'w awdurdodi i wneud newidiadau fel darparu gwasanaethau ychwanegol mewn lleoliadau eraill.

Sylwer: Cedwir yr eithriad presennol sy'n golygu nad oes rhaid i asiantaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol gofrestru, oherwydd bydd gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod **darparwyr gwasanaethau yn cyflwyno datganiad blynyddol** i Weinidogion Cymru o fewn terfyn amser a ragnodir. Mae hefyd yn datgan y caiff rheoliadau ragnodi cynnwys a ffurf y datganiadau blynyddol, a rhaid i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r broblem pe digwydd i ddarparwyr gwasanaethau **fethu â chydymffurfio**. Y cam statudol cyntaf yw bod y rheoleiddiwr gwasanaethau yn cyhoeddi **hysbysiad gwella**. Nid yw gweddill y broses wedi newid o'r trefniadau presennol, heblaw y caiff y rheoleiddiwr, ar ôl gwneud y gwelliannau, ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr ddangos cynaliadwyedd y gwelliannau hynny o fewn amserlen benodol.

Mae'r Bil hefyd yn sefydlu'r cysyniad o'r '**unigolyn cyfrifol**' mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd yn ofynnol i'r unigolyn hwn fod yn uwch gynrychiolydd ar ran y darparwr gwasanaeth. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer, trwy reoliadau, i osod dyletswyddau ar yr unigolyn cyfrifol, megis penodi rheolwr priodol ac addas, goruchwyllo'r rheolwyr, a chynnal ymweliadau rheolaidd â gwasanaethau neu gyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd.

Mae adran 21 yn rhoi i Weinidogion Cymru **bŵer i wneud cais i ynad heddwch am orchymyn yn eu hawdurdodi i ganslo cofrestriad** darparwr gwasanaeth ar frys neu amrywio cofrestriad gwasanaeth (ar adegau prin pan fydd angen **gweithredu ar frys** i atal niwed).

Mae adran 26 y Bil yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru **osod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau rheoleiddiedig drwy reoliadau, fel pennu safon y gofal a'r cymorth** y mae'n rhaid eu darparu. Mae'n dweud bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o'r fath, roi sylw i'r safonau ansawdd sydd wedi eu cynnwys mewn unrhyw god a ddyroddir o dan adran 9 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* (codau i helpu i sicrhau'r **canlyniadau llesiant**).

### ***Pennod 3 – Gwybodaeth ac arolygiadau***

Ym mhennod 3 (adrannau 31 – 35), nodir pwerau Gweinidogion Cymru i fynnu gwybodaeth, a phwerau a swyddogaethau 'arolygwyr' awdurdodedig sy'n cynnal **arolygiadau o wasanaethau**, fel caniatáu i arolygwyr gael gwybodaeth, arolygu gwasanaethau, cyfweld staff yn breifat, ac atafaelu dogfennau.

Mae adran 35 o'r Bil yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, **wneud darpariaeth ynghylch y graddau** y caniateir iddynt gael eu rhoi mewn perthynas ag ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan mai'r cynnig ar gyfer **graddau ansawdd** yw'r newid mwyaf sylweddol i arolygiadau, a chyn i'r pŵer hwn gael ei

ddefnyddio, bydd angen ymgynghori'n sylweddol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd er mwyn penderfynu ar y dull cywir.

#### ***Pennod 4 – Swyddogaethau cyffredinol***

Mae pennod 4 (adrannau 36 – 40) yn rhoi rhai swyddogaethau cyffredinol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau a reoleiddir, gan gynnwys **cynnal cofrestrau, darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol, ymgysylltu â'r cyhoedd, adroddiadau blynyddol a phwerau i godi ffioedd.**

Mae'r Bil yn darparu **pŵer cyffredinol ac eang i Weinidogion Cymru godi ffioedd am weithgareddau rheoleiddio.** Nodir yn adran 38 y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i berson dalu ffioedd am ddarpariaethau amrywiol gan gynnwys gwneud cais i gofrestru, a chael copi o adroddiad arolygu. Fodd bynnag, y mae hefyd yn nodi **bod gofyn i Weinidogion Cymru, cyn gwneud rheoliadau o'r fath, gymryd camau rhesymol i ymgynghori â phobl** sy'n debygol o gael eu heffeithio gan hyn, ac unrhyw rai eraill fel y bo'n briodol yn eu barn hwy. Noda'r Memorandwm Esboniadol y byddai cyflwyno system ffioedd yn sicrhau bod Cymru yr un fath â gweddill y Deyrnas Unedig.

Mae adran 39 yn canolbwyntio ar **ymgysylltu â'r cyhoedd**, ac yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru **ddarparu gwybodaeth am arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol i'r cyhoedd, a llunio a chyhoeddi datganiad am eu polisi mewn cysylltiad â chynnwys y cyhoedd** wrth arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol.

Mae adran 40 yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol** ynghylch arfer eu swyddogaethau rheoleiddiol. Rhaid gosod yr adroddiad blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

#### ***Pennod 5 – Troseddau a chosbau***

Mae pennod 5 (adrannau 41 – 54) yn nodi **troseddau a chosbau.**

Mae'r troseddau yn cynnwys methiant i gydymffurfio ag amod neu ofynion mewn rheoliadau; disgrifiadau ffug (fel esgus bod yn ddarparwr gwasanaeth); datganiadau ffug (darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol); methiant i ddarparu gwybodaeth, a throseddau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau (rhwystro neu fethu â chydymffurfio).

Mae adran 50 yn nodi'r cosbau ar gollfarn; yn y rhan fwyaf o achosion ar gollfarn ddiannod, bydd yn ddirwy, neu'n garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 6 mis, neu'r ddau; ac ar gollfarn ar dditiad, bydd yn ddirwy, neu'n garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na 2 flynedd, neu'r ddau. Mae troseddau naill ffordd neu'r llall yn y Bil yn gallu denu dirwy ddiderfyn neu gyfnod o hyd at 2 flynedd mewn carchar. Mae hyn yn golygu bod troseddau o dan y Bil yn cyd-fynd â throseddau sydd wedi

eu sefydlu mewn deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a chyfundrefnau rheoleiddio cymharol eraill.

Mae adran 51 yn cynnig opsiwn o **hysbysiad cosb**, sef hysbysiad sy'n rhoi cyfle i berson ryddhau unrhyw atebolrwydd am gollfarn am droseddau penodol drwy dalu swm i Weinidogion Cymru.

Mae adran 52 yn cyfeirio at droseddau a gyflawnir gan gyrff corfforaethol, ac mae adran 53 yn cyfeirio at droseddau gan gyrff anghorfforedig.

Mae adran 54 yn rhoi **terfynau amser ar gyfer achos am droseddau**; rhaid i achos gael ei ddwyn o fewn 12 mis i ddod i sylw'r erlynydd, ac ni ellir dwyn achos fwy na thair blynedd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni.

### ***Pennod 6 – Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol***

Mae pennod 6 (adrannau 55 - 57) yn diwygio ***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*** (“Deddf 2014”) i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (Atodlen 2 i Ddeddf 2014), ac mae'n cynnwys:

- Gofynion ar awdurdodau lleol i lunio a chyhoeddi **adroddiadau blynyddol ac adroddiadau newydd ar sefydlogrwydd y farchnad leol** (adran 55) y mae'n rhaid iddynt gynnwys asesiad o ddigonolrwydd y gofal a chefnogaeth a ddarperir yn yr ardal (i'w ychwanegu at adran 144 o Ddeddf 2014). Rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys manylion am i ba raddau y mae'r awdurdod wedi gweithredu yn unol ag unrhyw godau a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (codau i helpu i gyflawni **canlyniadau mewn perthynas â llesiant**).
- Pwerau i Weinidogion Cymru gynnal **adolygiadau** mewn perthynas â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol (adran 56), ac adolygiadau o astudiaethau ac ymchwil perthnasol. Wrth gynnal adolygiadau, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i nifer o ffactorau, gan gynnwys **effeithiolrwydd y camau a gymerir gan awdurdod lleol i sicrhau'r canlyniadau** a bennir mewn datganiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 8 (datganiad o ganlyniadau sy'n ymwneud â llesiant) o Ddeddf 2014, i'r graddau y bônt yn berthnasol i'r gwasanaethau.
- Pwerau i **awdurdodi mynediad ac archwilio mangreoedd** (adran 56); pwerau i Weinidogion Cymru i **fynnu gwybodaeth** (sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol); a throseddau mewn cysylltiad ag arolygiadau neu ofynion i ddarparu gwybodaeth (gan ddisodli adran 161 o Ddeddf 2014, *pwerau mynd i mewn ac arolygu*). Hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch y modd y mae arolygiadau i'w cynnal, gan gynnwys amllder arolygiadau.

- Pwerau i Weinidogion Cymru **reoleiddio'r arferiad o swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya** (adran 56) (gan ychwanegu at adran 94 o Ddeddf 2014, *rheoliadau ynghylch trefniadau asiantaeth*). Er enghraifft, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r personau sy'n addas i wneud y gwaith hwn.

### ***Pennod 7 – Trosolwg o'r farchnad***

Mae pennod 7 (adrannau 58 - 62) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru **fonitro ac adolygu cynaliadwyedd ariannol darparwyr gwasanaethau penodol**. Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdodau lleol lle mae methiant darparwr gwasanaeth yn debygol yn eu hardal (adran 61), a rhaid iddynt lunio a **chyhoeddi adroddiadau cenedlaethol ynghylch sefydlogrwydd y farchnad** ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru (adran 62).

#### ***2.2.2. Trosolwg o rannau 3 i 8 a'u dehongli***

Mae Rhan 2 (adrannau 64 – 65) yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau Rhannau 3 i 8 o'r Bil, a rhai diffiniadau sy'n ymwneud â'r rhannau hyn.

#### ***2.2.3. Gofal Cymdeithasol Cymru***

Mae Rhan 3 (adrannau 66 – 77) yn canolbwyntio ar **ailgyfansoddi rheoleiddiwr y gweithlu**.

Mae Adran 66 yn rhoi'r enw newydd **Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)** i Gyngor Gofal Cymru.

Mae adran 67 yn **nodi amcanion Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n nodi mai ei brif amcan yw diogelu, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r amcan hwnnw, rhaid i GCC arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar **hybu a chynnal-**

**(a) safonau uchel yn y ddarpariaeth o wasanaethau gofal a chymorth (\*amcan newydd),**

**(b) safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol,**

**(c) safonau uchel o ran hyfforddi gweithwyr gofal cymdeithasol, a**

**(d) hyder y cyhoedd mewn gweithwyr gofal cymdeithasol (\*amcan newydd).**

Mae adran 68 yn nodi y caiff GCC roi **cyngor a chynhorthwy (gan gynnwys grantiau)** i ddarparwyr gofal a chymorth at y diben o annog gwelliant yn y ddarpariaeth. Mae adran 69 yn caniatáu i GCC **gynnal astudiaethau ymchwil** er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau.

Mae adran 70 yn canolbwyntio ar **ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol**. Mae'n datgan bod rhaid i GCC **sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r**

cyhoedd, a gweithwyr gofal cymdeithasol am GCC a'r modd y mae'n arfer ei swyddogaethau. **Hefyd, rhaid i GCC lunio a chyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn cysylltiad â chynnwys y cyhoedd a gweithwyr gofal cymdeithasol yn yr arferiad o'i swyddogaethau.**

Mae adran 71 yn datgan bod rhaid i GCC **lunio a chyhoeddi datganiad o'i bolisi mewn cysylltiad â dwyn achosion troseddol ganddo.**

**Mae gan GCC bwerau eang i wneud rheolau newydd o dan y Bil.** Mae adran 72 yn cyfeirio at reolau newydd a wneir gan GCC, ac mae'n dweud bod rhaid i GCC gyhoeddi rheolau a wneir ganddo, a sicrhau bod y rheolau ar gael yn gyhoeddus. Mae adran 73 yn caniatáu i GCC wneud darpariaeth ar gyfer **tal ffioedd i GCC drwy reolau** mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys ar gyfer cofrestru, a darparu copïau o godau ymarfer neu gopïau o'r gofrestr.

Mae adran 74 yn nodi **gofynion ymgynghori** y mae'n rhaid i GCC gydymffurfio â hwy cyn gwneud unrhyw reolau, cyn cyhoeddi cod ymarfer a chyn dyroddi canllawiau. Rhaid i GCC gyhoeddi drafft ynghyd ag esboniad o ddiben y rheolau, cod neu ganllawiau arfaethedig, crynodeb o'r effaith y bwriedir iddynt ei chael, a hysbysiad sy'n pennu'r cyfnod ar gyfer caniatáu i sylwadau gael eu cyflwyno ynghylch y cynnig. Rhaid iddo 'gymryd camau rhesymol' i roi hysbysiad i weithwyr gofal cymdeithasol y mae GCC yn meddwl y gall y cynnig effeithio arnynt, Gweinidogion Cymru, ac unrhyw bersonau eraill sy'n briodol.

Sylwer: Mae is-adran 3 yn datgan na fyddai rhaid i GCC ymgynghori os yw wedi ei fodloni y byddai ymgynghori yn amhriodol neu'n anghymesur, ac os yw wedi cael cytundeb Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen heb ymgynghori.

Mae adran 77 yn caniatáu i bwerau diofyn Gweinidogion Cymru gael eu harfer os ydynt wedi eu bodloni bod GCC wedi methu â chyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau heb esgus rhesymol neu wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny.

#### *2.2.4. Gweithwyr gofal cymdeithasol*

Mae Rhan 4 (adrannau 78 - 110) yn canolbwyntio ar y gweithlu gofal cymdeithasol. Mae adran 78 yn diffinio 'gweithiwr gofal cymdeithasol'.

Mae adran 79 yn nodi bod **rhaid i GCC gynnal cofrestr** o weithwyr cymdeithasol perthnasol, gweithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau, a gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol. Mae gan GCC **ddyletswydd i benodi cofrestrydd** (o dan adran 80) i brosesu ceisiadau i gofrestru. Mae adrannau 81 a 82 yn nodi sut i wneud cais am gofrestru ac o dan ba amgylchiadau y dylai cais gael ei ganiatáu, er enghraifft os yw'r cofrestrydd yn fodlon bod y person 'wedi ei



gymhwysu'n briodol' (mae diffiniad yn adran 83). Mae adran 84 yn manylu ar y broses ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cael eu cymwysterau y tu allan i Gymru.

**Nid oes angen adnewyddu cofrestriad** ar hyn o bryd, ond mae adran 85 yn nodi y caiff GCC wneud rheolau newydd i ddarparu mai dim ond am gyfnod penodol y mae cofnod yn y gofrestr yn cael effaith (a fyddai'n golygu y bydd angen gwneud cais am adnewyddu), a gwneud darpariaeth ar gyfer adnewyddu cofnod.

Mae adran 87 yn nodi bod **rhaid i GCC wneud rheolau ynghylch sut y mae'r cofrestrydd i benderfynu caniatáu'r cofrestriad, a'r weithdrefn** ar gyfer ymdrin â cheisiadau.

Mae adran 89 yn nodi'r broses gofrestru ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol.

Mae adrannau 91-98 yn nodi'r **prosesau ar gyfer dileu cofnodion o'r gofrestr ac adfer cofnodion i'r gofrestr**, ac mae adrannau 100 – 104 yn nodi'r **broses apelio** ar gyfer gwahanol benderfyniadau.

Mae adran 109 yn nodi bod **rhaid i GCC gadw rhestr o bobl sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr**.

Mae adran 110 yn cyfeirio at y **ddiogelu teitl 'gweithiwr cymdeithasol'** – mae'n **drosedd** i berson nad yw wedi ei gofrestru gymryd neu ddefnyddio'r teitl. Mae person sy'n euog o'r drosedd hon yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy. Mae hefyd yn rhoi pŵer, drwy reoliadau, i ddiogelu teitl 'gweithiwr gofal cymdeithasol' a ddiffiniwyd.

### *2.2.5. Safonau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol*

Mae Rhan 5 (adrannau 111 – 115) yn canolbwyntio ar safonau ymddygiad, datblygiad proffesiynol ac addysg ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

Mae adran 111 yn nodi bod yn rhaid i GCC lunio, cyhoeddi ac adolygu **codau ymarfer sy'n pennu'r safonau ymddygiad ac ymarfer** a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol, a phersonau sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Sylwer: Mae'r Bil yn datgan y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gallu llunio codau ymarfer ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl (GPIM) a gymeradwywyd. Mae GPIM yn arfer swyddogaethau o dan *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983*. Mae'r swyddogaethau hynny yn ymwneud â phenderfyniadau a wneir am unigolion sydd ag anhwylderau meddwl, gan gynnwys y penderfyniad i wneud cais i orfodi claf i fynd i'r ysbyty.

Mae adran 112 yn nodi y caiff GCC **wneud rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sydd wedi eu cofrestru ('gweithwyr gofal cymdeithasol')** gyflawni

**hyfforddiant pellach a datblygiad proffesiynol parhaus.** Caiff GCC gymeradwyo ac arolygu cyrsiau perthnasol (adrannau 113 - 114) a rhaid iddo gynnal a chyhoeddi rhestr o'r cyrsiau y mae wedi eu cymeradwyo. Hefyd, caiff GCC ddarparu neu sicrhau y darperir cwrs newydd os oes angen, a gwneud grantiau er mwyn sicrhau hyfforddiant a darparu hyfforddiant (adran 115).

### *2.2.6. Gweithwyr gofal cymdeithasol - addasrwydd i ymarfer*

#### ***Pennod 1 – Seiliau amhariad***

Mae adran 116 o Bennod 1 o Ran 6 yn nodi'r seiliau dros amhariad posibl ar addasrwydd person i ymarfer at ddibenion bod yn gofrestredig, a pharhau'n gofrestredig; gan gynnwys perfformiad diffygiol fel gweithiwr gofal cymdeithasol a chamymddwyn difrifol mewn unrhyw rinwedd.

#### ***Pennod 2 – Ystyriaeth ragarweiniol i honiadau***

Mae Pennod 2 (adrannau 117 - 132) yn darparu ar gyfer system o ystyriaeth ragarweiniol ac ymchwiliad o ran a all fod amhariad ar addasrwydd gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig i ymarfer, ac ar gyfer atgyfeirio achosion penodol i banel "addasrwydd i ymarfer".

Mae adran 124 yn rhoi **dyletswydd ar GCC i ymchwilio** (neu wneud trefniadau ar gyfer ymchwilio) i fater a atgyfeirir mewn cysylltiad ag addasrwydd person cofrestredig i ymarfer.

#### ***Pennod 3 – Gwaredu achosion addasrwydd i ymarfer***

Mae Pennod 3 (adrannau 133 – 143) yn nodi'r opsiynau a'r phrosesau ar gyfer symud ymlaen ar ôl i fater gael ei atgyfeirio at banel addasrwydd i ymarfer, a'i ystyried. Mae'n nodi'r opsiynau y gellir eu rhoi ar waith mewn gwahanol amgylchiadau, megis pan fydd amhariad ar addasrwydd i ymarfer (adran 137). **Mae'r dewisiadau yn cynnwys gorchmynion cofrestru amodol neu ar unwaith neu orchmynion atal dros dro** (adrannau 138/139). Mae gorchmynion cofrestru yn gosod amodau ar gofrestriad y person, ac mae gorchmynion atal dros dro yn atal cofrestriad y person cofrestredig yn y gofrestr dros dro.

Mae gorchmynion effaith ar unwaith yn dod i rym yn ddi-oed ac ni chaiff y panel wneud gorchmyn o'r fath dim ond os yw wedi ei fodloni bod y gorchmyn yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd, fel arall er budd y cyhoedd, neu er budd y person cofrestredig.

#### ***Pennod 4 – Gorchmynion interim***

Mae pennod 4 (adrannau 142 – 148) yn cyfeirio at **orchmynion interim ac adolygu'r gorchmynion hynny**. Gorchmynion dros dro yw gorchmynion interim sy'n dod i rym ar unwaith, a chaiff panel eu dyfarnu. Y ddau opsiwn yw **gorchmyn atal dros dro interim, neu orchmyn cofrestru amodol interim**. Fel

y gorchmynion effaith ar unwaith ym mhennod 3, ni cheir eu gwneud dim ond os yw'r panel yn fodlon bod eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd ac ati. Ni chaniateir i orchmyn interim bara am gyfnod sy'n hwy na 18 mis (er y gall GCC wneud cais i'r tribiwnlys am estyniad).

Yn adran 144 nodir y broses apelio ar gyfer gorchmynion interim. Yn adran 145 nodir yr amseriad ar gyfer adolygu gorchmynion interim, ac yn adran 146 nodir y penderfyniadau posibl a'r camau nesaf ar ôl adolygu gorchmynion interim.

### ***Pennod 5 – Achosion adolygu***

Ym mhennod 5 (adrannau 149 – 155) nodir yr adolygiadau y mae'n rhaid eu cynnal gan banel addasrwydd i ymarfer, a'r gwarediadau posibl y caniateir eu gwneud gan banel addasrwydd i ymarfer (megis dirymu neu estyn gorchmynion).

### ***Pennod 6 – Apelau ac atgyfeiriadau i'r tribiwnlys***

Pennod 6 (adran 156) yn nodi'r broses a'r amgylchiadau pryd y caiff person apelio i'r tribiwnlys yn erbyn penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer.

### ***Pennod 7 – Cyffredinol ac atodol***

Mae pennod 7 (adrannau 157 – 159) yn rhoi pwerau i GCC i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu iddynt (adran 158), ac i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd person cofrestredig i ymarfer os yw'n meddwl ei bod er budd y cyhoedd i wneud hynny (adran 157). Mae hefyd yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'n rhaid iddo gyhoeddi penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer (adran 159).

## **Rhan 7: Gorchmynion sy'n gwahardd gwaith mewn gofal cymdeithasol – personau anghofrestredig**

Mae Rhan 7 (adrannau 163 – 171) yn canolbwyntio ar **orchmynion gwahardd i wahardd rhai pobl rhag cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig** (gwaith gofal cymdeithasol).

Nodir yn adran 164 bod rhaid i **reoliadau ragnodi'r amgylchiadau pan gaiff panel addasrwydd i ymarfer wneud gorchmynion gwahardd**. Mae adran 165 yn nodi bod rhaid i reoliadau awdurdodi gwneud gorchmynion gwahardd interim (ar unwaith, dros dro) gan banel addasrwydd i ymarfer i wahardd person wrth aros am benderfyniad o ran pa un ai i wneud gorchmynion gwahardd (llawn) ai peidio.

Mae'r rhan hon hefyd yn manylu ar adolygu gorchmynion gwahardd interim (adran 167), a throseddau am fethu â chydymffurfio â'r gorchmynion (adran 169). Mae hefyd yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer hawl i apelio (adran 168).

Nodir yn adran 170 bod yn rhaid i **GCC sefydlu a chynnal rhestr o bersonau sy'n destun gorchmynion gwahardd neu orchmynion gwahardd interim**.

Mae adran 171 yn dweud y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i GCC benderfynu ar y safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth berson sy'n cyflawni gweithgaredd rheoleiddiedig.

### **Rhan 8: Dyletswydd ar GCC i sefydlu paneli**

Mae Rhan 8 (adrannau 172 - 173) yn ei gwneud yn ofynnol i GCC wneud rheolau i sefydlu paneli a fydd yn dyfarnu a ddylid derbyn person i'r gofrestr neu ei dynnu oddi arni; "paneli apelau cofrestru", "paneli addasrwydd i ymarfer" a "paneli gorchmynion interim".

### **Rhan 9: Cydweithredu a chydweithio**

Mae rhan 9 (adrannau 174 - 180) yn canolbwyntio ar gydweithredu a chydweithio rhwng cyrff rheoleiddiol, sef Gweinidogion Cymru (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru) ac awdurdodau perthnasol (gan gynnwys awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol).

Nodir yn adran 176 bod yn rhaid i'r cyrff rheoleiddiol gydweithredu a cheisio cydweithredu gydag awdurdodau perthnasol os yw'r corff rheoleiddiol yn credu y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau, neu y bydd cydweithredu yn helpu'r corff i gyflawni ei amcanion cyffredinol. Y mae hefyd yn rhestru'r amgylchiadau lle caiff corff rheoleiddiol wrthod cydymffurfio â chais am gydweithredu ag awdurdod perthnasol.

Nodir yn adran 177 y caiff cyrff rheoleiddiol drefnu arfer unrhyw un o'u swyddogaethau perthnasol ar y cyd. Mae adran 178 yn nodi'r amgylchiadau lle caiff corff rheoleiddiol ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau perthnasol i'r corff rheoleiddiol arall. Mae'n datgan na chaiff GCC ddirprwyo ei swyddogaethau ar wneud rheolau na'i swyddogaethau sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer.

Cyfeirir yn adran 179 at **rannu gwybodaeth** rhwng cyrff rheoleiddiol ac awdurdodau perthnasol. Nodir yn adran 180 bod yn rhaid i **gorff rheoleiddiol ddatgelu gwybodaeth os yw'n meddwl bod datgeliad o'r fath yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn diogelu llesiant unigolyn** yng Nghymru (oni bai bod hynny wedi'i wahardd gan y gyfraith).

### **Rhan 10: Amrywiol a chyffredinol**

Mae Rhan 10 (adrannau 181 - 182) yn ymdrin ag ymholiadau a'r weithdrefn ar gyfer darparu dogfennau i hysbysu unigolion (adran 182).

Mae adran 181 yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru beri i ymchwiliad gael ei gynnal i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â darparu gofal a chymorth.

## **Rhan 11: Darpariaethau terfynol**

Mae Rhan 11 (adrannau 183 – 188) yn nodi'r darpariaethau terfynol i'r Bil; er enghraifft mae adran 183 yn datgan bod atodlen 3 yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae adran 185 yn nodi na chaniateir gwneud rheoliadau penodol o dan y Ddeddf oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad – y 'weithdrefn gadarnhaol'.

### 3. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

#### 3.1. *Goblygiadau ariannol y Bil*

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl i'w gael yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r Asesiad hwn yn cyflwyno costau a manteision y dewisiadau a ystyriwyd o dan bob adran wedi eu strwythuro o amgylch **pum prif elfen y Bil: cofrestru, arolygu, gorfodi, y farchnad gofal cymdeithasol a'r gweithlu.**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig amryw o ddewisiadau o dan bob adran o'r Bil ynghyd â chostau a manteision pob opsiwn ac asesiad o'r graddau y maent yn bodloni nodau'r Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn manylu ar gostau'r grwpiau canlynol yr effeithir arny'n nhw gan bob opsiwn yn y Bil:

- Llywodraeth Cymru
- Rheoleiddiwr y gwasanaeth (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)
- Darparwyr gwasanaethau
- Rheoleiddiwr y gweithlu (Cyngor Gofal Cymru ar hyn o bryd a fydd yn newid yn Gofal Cymdeithasol Cymru).
- Gweithwyr gofal cymdeithasol
- Y system cyfiawnder troseddol
- Defnyddwyr gwasanaeth

#### 3.1.1. *Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan mai costau'r Bil yw'r **amcangyfrif gorau yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.** Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r **costau ychwanegol** a fydd yn codi o ganlyniad i weithredu'r opsiynau a ffefrir a ddisgrifir yn y Memorandwm. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cyfrifo y bydd **cyfanswm costau ychwanegol y Bil yn y pum mlynedd gyntaf tua £9 miliwn, sy'n cynnwys costau pontio o £3.3 miliwn.** Ceir rhagor o fanylion am y prif gostau amcangyfrifedig yn y tabl isod.

**Tabl 1: Costau a manteision ychwanegol yr opsiynau a ffefrir fesul grŵp; 2016-17 i 2020-21**

	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21	Cyfanswm
Rheoleiddiwr y gwasanaeth (AGGCC)	2,126,200	1,765,868	1,765,868	1,765,868	1,765,868	9,189,672
Darparwyr gwasanaethau	1,074,000	45,880	45,880	45,880	45,880	1,257,520
Llywodraeth Cymru	113,412	115	115	115	115	113,872
System cyflawnder troseddol	0	8,475	8,475	8,475	8,475	33,900
Gweithwyr gofal cymdeithasol	0	-128,370	-128,370	-128,370	-128,370	-513,480
Rheoleiddiwr y gweithlu (CGC)	3,800	-64,700	-64,700	-64,700	-64,700	-255,000
Defnyddwyr gwasanaeth	0	-184,600	-184,600	-184,600	-184,600	-738,400
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,317,412</b>	<b>1,442,668</b>	<b>1,442,668</b>	<b>1,442,668</b>	<b>1,442,668</b>	<b>9,088,084</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, [Memorandwm Esboniadol - Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn esbonio ei fod yn cynnwys dwy ddarpariaeth sydd heb eu costio sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; gwarchod teitl a gorchmynion gwahardd. Fodd bynnag, er bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi amcangyfrif o gostau datblygu'r is-ddeddfwriaeth i Lywodraeth Cymru, **mae'n esbonio na fu'n bosibl darparu costau ar gyfer gweithredu'r darpariaethau** oherwydd nifer y dulliau y gellid eu defnyddio ar hyn o bryd. Os bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y byddant yn destun ymgynghoriad statudol, a bydd dadansoddiad cost a budd yn cael ei wneud.

Mae'r Memorandwm hefyd yn esbonio **na fu modd amcangyfrif y costau y bydd awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth lunio'r datganiadau presennol ar sefyllfa'r farchnad.**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn anarferol gan ei fod yn rhoi amcangyfrifon manwl o gostau un opsiwn polisi nad yw'r opsiwn a ffefrir ar hyn o bryd, ond y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn ymwneud ag **ymestyn cofrestrriad gorfodol y gweithlu gofal cymdeithasol** lle caiff yr opsiynau eu hystyried yn fanwl, ond lle mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dod i'r casgliad ei bod yn ddadl gyfartal iawn, ac mai'r opsiwn a ffefrir yw cadw'r drefn bresennol. Fodd bynnag, yn y dyfodol **cynhelir dadansoddiad arall o'r costau a'r manteision os a phan ddefnyddir y pwerau.**

### *3.1.2. Manteision*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan, fel gyda'r rhan fwyaf o Filiau, **na fu modd mesur y manteision sy'n gysylltiedig â'r amrywiol opsiynau, a chyflwynwyd disgrifiad ansoddol wrth ochr llawer o'r manteision.** Mae'r manteision yn cael eu mesur yn yr adran ar gofrestru, gan gynnwys; model sy'n seiliedig ar wasanaeth cofrestru, dileu cofrestriad gwirfoddol a chael gwared ar gofrestriad deuol ar gyfer rheolwyr. O dan yr adran 'Diwydrwydd dyladwy ynglŷn â darparwyr allweddol' mae'r manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd wedi'u mesur os digwydd i ddarparwr cartref gofal adael y farchnad yn sydyn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod hyn yn golygu **ei bod yn anodd cymharu'r costau a'r manteision mewn modd gwrthrychol.**

### *3.1.3. Costau ychwanegol ar y rheoleiddiwr gwasanaethau (AGGCC)*

Roedd y rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn disgyn ar AGGCC, **sef £9.2 miliwn rhwng 2016-17 a 2020-21.** O'r rhain **mae £2.1 miliwn yn gostau pontio** sy'n cynnwys £1.5 miliwn am gyflwyno model cofrestru sy'n seiliedig ar wasanaeth sy'n cynnwys mwy o rôl i'r unigolyn cyfrifol a £655,200 ar gyfer ei gwneud hi'n drosedd i roi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, a chofrestru sy'n gyfyngedig o ran amser.

O ran y **costau rheolaidd** ychwanegol i AGGCC, amcangyfrifir y bydd darparu **fframwaith dyfarnu ansawdd yn costio £1,443,486 y flwyddyn.** Gan mai'r **fframwaith dyfarnu ansawdd yw'r opsiwn a ffefrir ac sydd â'r gost reolaidd ychwanegol fwyaf,** mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan y bydd dadansoddiad cost a budd pellach yn cael ei wneud os caiff y pwerau hyn eu defnyddio. Mae £40,000 arall y flwyddyn yn cael ei neilltuo i lunio adroddiadau blynyddol wedi'u safoni, sydd ar gael i'r cyhoedd, ar swyddogaethau statudol awdurdodau lleol.

### *3.1.4. Costau ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaethau*

Mae'r rhan fwyaf o'r costau ychwanegol sy'n disgyn ar **ddarparwyr gwasanaeth yn gostau pontio o £1.1 miliwn sy'n cynnwys £726,300 ar gyfer integreiddio model o gofrestru sy'n seiliedig ar berfformiad** gyda'r dull presennol o reoleiddio, a £240,100 fel y gall darparwyr gwasanaethau gyflwyno adroddiadau blynyddol wedi'u safoni sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae £107,600 arall ar gyfer cyflwyno model cofrestru sy'n seiliedig ar wasanaethau, sy'n cynnwys rôl uwch i'r unigolyn cyfrifol.



Amcangyfrifir bod y costau rheolaidd ychwanegol tua £45,880 y flwyddyn ac yn cynnwys costau ychwanegol ar gyfer y fframwaith dyfarnu ansawdd ynghyd ag arbedion amcangyfrifedig o gyflwyno'r model cofrestru sy'n seiliedig ar wasanaethau. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod hyn yn cyfateb i gostau rheolaidd ychwanegol o £40 y flwyddyn i bob darparwr gwasanaeth.

### *3.1.5. Costau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru*

**Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i gostau ychwanegol o tua £113,900 rhwng 2016-17 a 2020-21 o ganlyniad i'r Bil.** Mae'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn gostau pontio ac yn digwydd yn 2016-17. Maen nhw'n cynnwys £100,000 ar gyfer y costau pontio sy'n gysylltiedig â chyflwyno Gofal Cymdeithasol Cymru, fel prosesau gweinyddol, swyddogaethau a llywodraethu, ynghyd â gweithgareddau cyfathrebu a marchnata. Mae costau staff o £13,412 ar gyfer datblygu is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â gwarchod teitl a gorchmynion gwahardd hefyd wedi'u cynnwys.

### *3.1.6. Manteision i weithwyr gofal cymdeithasol, defnyddwyr gwasanaethau a Chyngor Gofal Cymru (i newid yn Gofal Cymdeithasol Cymru).*

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan bod disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau elwa £738,400 ar yr opsiynau a ffefrir rhwng 2016-17 a 2020-21. Fodd bynnag, yr unig fanteision sydd wedi'u mesur i ddefnyddwyr gwasanaeth yw os digwydd i ddarparwr cartref gofal adael y farchnad yn sydyn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seilio'r arbedion cost hyn ar y rhagdybiaeth y bydd diwydrwydd dyladwy yn atal un cartref gofal preswyl mawr rhag cau bob 10 mlynedd.

Mae'r opsiynau a ffefrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn manteisio ar ostyngiad o £513,480 yn ystod y pum mlynedd. Mae hyn yn deillio o ddileu cofrestriad gwirfoddol a chael gwared ar gofrestrriad deuol ar gyfer rheolwyr.

Oherwydd dileu cofrestru gwirfoddol, disgwylir y bydd y manteision i Gyngor Gofal Cymru yn gyfanswm o £255,000 yn ystod y pum mlynedd.

### 3.2. *Asesiadau effaith*

Mae adran 8 y Memorandwm Esboniadol yn rhoi gwybodaeth am asesiadau o effaith y Bil ar feysydd penodol, gan gynnwys:

- Asesu cystadleuaeth
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
- Asesiad o'r effaith ar hawliau plant
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Hŷn a Datganiad Llywodraeth Cymru ar Hawliau Pobl Hŷn
- Yr effaith ar yr iaith Gymraeg
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb
- Datblygiad cynaliadwy
- Prawfesur polisiâu o safbwynt anghenion cefn gwlad
- Iechyd a llesiant
- Yr effaith ar breifatrwydd
- Yr effaith ar y sector gwirfoddol

## 4. Ymateb i'r Bil

### 4.1. *Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), 24 Chwefror 2015*

Gwnaeth Mark Drakeford AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, [ddatganiad llafar](#) yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Chwefror 2015. Gwnaeth Aelodau eraill y pwyntiau a ganlyn yn y cyfarfod.

Gofynnodd **Andrew RT Davies AC**, arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, a yw'r Gweinidog wedi ystyried galluogi'r arolygiaeth i benodi rheolwyr dros dro mewn cartrefi gofal sy'n methu fel dewis arall yn hytrach na'u cau. Nododd hefyd y byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn cyfrifol o ddarparwyr gwasanaeth eistedd ar lefel y bwrdd i fod yn atebol am ddarpariaeth y gwasanaeth, yn ogystal â rheolwr cofrestredig y gwasanaeth neu'r cartref gofal. Gofynnodd a yw'r Gweinidog wedi ystyried y goblygiadau y gallai hyn eu creu i grwpiau mwy o gartrefi gofal a sut y byddai'r atebolrwydd hwn yn gweithio'n ymarferol.

Roedd yn pryderu bod y cynnig i gynnwys pŵer yn y Bil i gyflwyno system raddio ar gyfer cartrefi gofal yn gallu gwaethygu'r oedi wrth drosglwyddo gofal os digwydd i bobl sydd yn yr ysbyty yn disgwyl cael lle mewn cartref gofal aros am le mewn cartref gofal sydd wedi cael sgôr uchel. Roedd yn dymuno gwybod a yw'r system raddio yn debygol o gael ei chyflwyno yn y tymor byr i ganolig, neu ai dyhead tymor hir ydyw.

Dyweddodd y **Gweinidog** bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda'r sector i sicrhau bod y system newydd yn ymarferol iddynt, ac o ran y system raddio, nid oedd yn ei gweld yn cael ei chyflwyno yn y tymor byr. Nid oedd yn diystyru ei chyflwyno yn y tymor canolig, cyn belled â bod y trafodaethau angenrheidiol yn cael eu cynnal â'r sector.

Roedd **Lynne Neagle AC**, Llafur Cymru, yn croesawu'r gofyniad newydd am adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol, a'r mesurau ynghylch y gweithlu gofal cymdeithasol. Roedd am wybod sut y bydd y Bil mewn gwirionedd yn sicrhau gwelliannau yn ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn y sector gofal preswyl.

Dyweddodd y Gweinidog bod y Bil yn ceisio newid pwyslais rheoleiddio i gynnwys ansawdd y gofal a'i effaith ar y bobl sy'n ei gael gan ddefnyddio'r fframwaith canlyniadau sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*.

Roedd **Elin Jones AC**, Plaid Cymru, a Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd a Lles, yn pryderu am safonau mewn lleoliadau gofal integredig a'r gofal a ddarperir yng nghartref y person ei hun. Gofynnodd sut y bydd y Bil yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ar y cyd gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu harolygu, a sut y bydd yr angen i reoleiddio ac arolygu modelau mwy newydd o ddarpariaeth gwasanaeth fel 'gofal ychwanegol' yn cael sylw. Yr oedd hefyd am wybod sut y caiff gofal yn y cartref ei arolygu.

Mynegodd bryder nad oedd gweithwyr gofal cartref yn cael eu talu am amser teithio, a'u bod felly yn cael eu talu'n llai na'r isafswm cyflog, ac roedd am wybod pam nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Dywedodd y **Gweinidog**, yn dilyn adroddiad Ruth Marks ar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ei fod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyrdd a fydd yn ystyried a oedd angen dau reoleiddiwr — un i iechyd ac un i ofal cymdeithasol.

Dywedodd ei fod yn bwriadu gofyn cyngor Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am ofal ychwanegol fel ychwanegiad posibl i gwmpas y Bil. Bydd y Bil yn cael gwared â rhai o'r gwahaniaethau rhwng mathau o leoliadau gofal cymdeithasol.

Dywedodd y Gweinidog nad yw hwn yn Fil am delerau ac amodau cyflogaeth, a bod y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi comisiynu ymchwil i effaith contractau dim oriau, a'r defnydd ohonynt, ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn help i Lywodraeth Cymru wrth feddwl am sut i symud ymlaen. Dywedodd y bydd y Bil yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu, drwy reoliadau o dan adran 28, safonau clir ar gyfer darparwyr, a allai, o bosibl, gynnwys y ffordd y mae staff yn cael eu cyflogi.

Roedd **Gwenda Thomas AC**, Llafur Cymru, yn annog y Gweinidog i sicrhau bod y Bil yn sicrhau bod rhan i arolygwyr llyg o hyd.

Dywedodd y Gweinidog bod cynnwys pobl llyg yn y broses arolygu yn hanfodol i'r Bil; bydd dyletswydd ar y rheoleiddiwr i nodi'n flynyddol i ba raddau y mae wedi gallu cynnwys dinasyddion yn ei waith.

Roedd **Kirsty Williams AC**, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn credu bod y cyfrifoldeb am ansawdd gofal wedi tueddu i ddisgyn ar ysgwyddau unigolion sydd â braidd ddim rheolaeth dros yr amgylchiadau y mae'n rhaid iddynt weithio ynddynt. Felly, roedd yn croesawu'r ddarpariaeth yn y Bil am fwy o atebolrwydd corfforaethol a chyfrifoldeb cyfreithiol ar lefel bwrdd.

Roedd yn dymuno gwybod am yr amgylchiadau lle byddai'r Gweinidog yn cyflwyno'r system raddio ar gyfer gwasanaethau gofal. Gofynnodd hefyd a fyddai darparwyr gofal yn y cartref yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau am sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol a pha ddulliau fyddai ar gael pe byddai adroddiad o'r fath yn nodi ansefydlogrwydd ariannol.

Anogodd y Gweinidog i fynd i'r afael, mewn safonau a rheoliadau, y mater o drosiant uchel y staff yn y sector gofal cymdeithasol a achosir gan amodau gwaith gwael. Roedd hefyd yn awyddus i'r Gweinidog ystyried sut y caiff is-gontractwyr eu trin. Anogodd y Gweinidog i achub ar y cyfle i ddefnyddio'r Bil i fynd i'r afael â'r mater o alwadau gofal cartref 15 munud.

Dyweddodd y **Gweinidog** y byddai angen i unrhyw system raddio newydd fod yn ddibynadwy ac yn gyson cyn iddi gael ei chyflwyno. Bydd yr adroddiad am sefydlogrwydd y farchnad genedlaethol yn cwmpasu asiantaethau gofal cartref.

Dyweddodd y Gweinidog ei fod yn cael ei ddenu at y syniad y dylai fod yn rhaid i ddarparwyr gofal adrodd am ffigurau trosiant staff a fyddai'n adlewyrchu ar y ffordd y maent yn trin eu staff.

Dyweddodd y bydd mater galwadau gofal 15 munud yn cael ei drafod yn ystod hynt y Bil, a chytunodd bod slotiau amser o 15 munud yn annerbyniol mewn rhai amgylchiadau, er y gellid cyflawni ambell dasg ofal o fewn yr amser hwnnw.